



Bore Sul, Rhagfyr 8ed, 2019



Croeso cynnes i chi gyd y bore 'ma. Mae'r oedolion yn y Neuadd gydol yr oedfa, plant dosbarth 1 i'r capel, plant dosbarth 2 i'r stafell waelod yn y ganolfan a'r Criw Uwchradd i stafell dop y ganolfan. Cynhelir cwrdd busnes blynyddol y cwmni ar ddiwedd yr oedfa, yn y neuadd.

Yr Wythnosau Nesaf

Rhagfyr 15eg – Dathliad Nadolig y Plant a pharti'r Ysgol Sul i ddilyn.

Rhagfyr 22ain – oedfa'r Twmiaid gyda Geraint Rees a Lyn West a chyfraniadau amrywiol. Rhowch wybod os oes eitemau gyda chi plis! Bethan yn cyfeilio.

Rhagfyr 24ain am 11pm. Dewch â'ch eitemau!

Rhagfyr 29ain – Geraint Wyn a Keith Rowlands. Eleri yn cyfeilio.

Ionawr 5ed – aelodau Pentyrch gyda Karen Owen

Ionawr 12fed – Aled Edwards

Sul diwethaf gyda Chôr Caerdydd
Bydd cyfraniad o £500 yn mynd at Canolfan Ganser Felindre yn dilyn rhoddion hael Sul diwethaf. Diolch am eich cyfraniadau.

TALEBAU NADOLIG 2019

Unwaith eto eleni, bu'r casgliad yn llwyddiant rhyfeddol, sy'n golygu y bydd rhai o bobl ifanc yr ardal sy'n gadael gofal yn medru siopa ar gyfer y Nadolig yng nghwmni eu gweithwyr cymdeithasol, ac yn cael cyfle i brofi rhywfaint o lawenydd yr Ŵyl. Diolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd.

CASGLIADAU DILLAD A NWDYDDAU A'R BANC BWYD

Diolch yn fawr am y cyfraniadau cyson i Adref, Nantgwyn, a Cwtch ac i'r Banc Bwyd. Mae stff yn mynd wrthon ni bob wythnos. .

ELUSENNAU 2019

Gofalwyr Ifanc Rhondda Cynon Taf, Adref, Ysgol Tŷ Coch, Cymorth i Ferched Cymru & CRICA (ymchwilio i Glefyd Crohn a chefnogi dioddefwyr ifanc).

CASGLIAD BANC BWYD TAF ELÁI

Diolch yn fawr i'r criw selog lwyddodd i helpu gyda'r casgliad eleni, ynghanol tywydd diflas, a hynny ar fyr rybudd. Bu'n dda i ni fod yno, gan fod ein hangen i chwyddo'r rhengoedd, yn wahanol i droeon diweddar.

Bwcio'r Capel neu'r Ganolfan:
carolinerees2@hotmail.com
neu decstio Caroline ar
07539452130

DEFNYDDIO'R MAES PARCIO

Bydd Suliau mis Rhagfyr yn rhai prysur, ac felly byddwn yn agor y maes parcio sydd y tu hwnt i'r fynwent ar gyfer oedfaon y bore. Plis gnewch ddefnydd ohono. Bydd ambell un yn gwisgo siaced lachar i'ch tywys yno ar foreuau'r 8ed, y 15ed a'r 22ain.

CYLCH CADWGAN

7.30pm 14 Chwefror 2020 **Yr Athro GERAINT JENKINS** yn siarad ar y testun: 'Y Digymar Iolo Morgannwg'

Achlysur cyntaf dathliad 150 mlynedd y Capel

8.00pm 31 Ionawr 2020

Yn y Ganolfan, Efail Isaf.

DON LLEWELLYN

yn siarad ar y testun:

'Straeon Cymeriadau Ardal y Garth'

Ffair Nadolig Efail Isaf

Ar fore Sadwrn, 14/12/2019. Os oes eliffant gwyn gyda chi, plis rhowch wybod i Caroline. Mae angen tipyn o stwff i gael stondin da.

Diolch yn fawr.

MERCHED Y TAB

Dydd Mercher, 11 Rhagfyr, am 2.00pm. Cartref Hen Bobl Gartholwg i ganu carolau a chymdeithasu. Rhai sydd a diddordeb, cysylltwch, os gwelwch yn dda gyda Sian Elin ar sej7bh@aol.com

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

Cynhelir Cwrdd Blynyddol Capel y Tabernacl Cyf. yn dilyn yr oedfa bore 'ma.

HELPU'R TRYSORYDD

Os am ysgrifennu siec, mae'n bwysig ei fod yn daladwy i **CAPEL Y TABERNACL, CYF.** Gall arbed tipyn o ffwdan i Arwyn yn y banc. Diolch am eich help gyda hyn

YR ETHOLIAD CYFFREDINOL

Mae Gethin Rhys a Cytun wedi trefnu noson i aelodau'r capeli lleol i holi'r ymgeiswyr ar gyfer etholaeth Pontypridd yn Salem, Tonteg CF38 1PT ar nos yfory am 7yh. Cyswllt:

richard.weaver.home@gmail.com

AMLENNI BROWN 2019

Bydd casgliad amlenni brown elusennau 2019 yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn.

Dyma'r elusennau fydd yn elwa eleni: Ysgol Tŷ Coch/Adref/Cymorth i Ferched Cymru/Gofalwyr Ifanc RhCT/CRICA. Mae gwybodaeth am yr elusennau ar wefan y capel. Gyda'ch haelioni arferol chi, bydd cyfraniadau anrhydeddus yn cael eu cyflwyno i'r elusennau eto eleni. DIOLCH

436

Awn i Fethlem, bawb dan ganu,
neidio, dawnsio a difyrru,
i gael gweld ein Prynwr c' redig
aned heddiw, Ddydd Nadolig.

Ni gawn seren i'n goleuo
ac yn serchog i'n cyf'rwyddo
nes y dyco hon ni'n gymwys
i'r lle santaidd lle mae'n gorffwys.

Mae'r bugeiliaid wedi blaenu
tua Bethlem dan lonyddu,
i gael gweld y grasol Frenin;
ceisiwn ninnau bawb eu dilyn.

Mae'r angylion yn llawenu,
mae'r ffurfafen yn tywynnu,
mae llu'r nef yn canu hymnau,
caned dynion ryw beth hwythau.

Awn i Fethlem i gael gweled
y rhyfeddod mwya' wnaethped,
gwneuthur Duw yn ddyn naturiol
i gael marw dros ei bobol.

RHYS PRICHARD, 1579?–1644

14.12.2019 am 8 y nos
Sesiwn Efail Isaf yn y
Carpenters, dan ofal Huw M a'i
ffrindiau. Cofiwch eich llais, ac
unrhyw offeryn all gyfrannau at
noson hwyliog. Neu jyst dewch i
wrando.

475

Pan anwyd Crist ym Methlehem dref
canodd angylion nef,
canu wnawn ninnau'n llawen ein llef
foliant i Faban Mair.

Canu wnawn ni, canu wnawn ni
foliant i Faban Mair,
canu wnawn ninnau'n llawen ein
llef
foliant i Faban Mair.

Teithiodd y doethion dros bant a bryn
ar eu camelod gwyn,
gyda'r bugeiliaid rhoesant yn syn
foliant i Faban Mair.

Beth roddwn ni i drysor y crud,
blant pedwar ban y byd?
Canwn ein cân, a rhoddwn bob pryd
foliant i Faban Mair.

MYFI EVANS

479

Daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
a deued pawb ynghyd
i'w dderbyn a'i gydnabod ef
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad i'r holl fyd,
yn Geidwad, yn Geidwad i'r holl fyd.

Aed y newyddion da ar led,
awr gorfoleddu yw;
seinied pawb drwy'r ddaear gron
eu cân o fawl i Dduw,
eu cân o fawl i Dduw,
eu cân, eu cân o fawl i Dduw.

Boed ysbryd gwell rhwng gwlad a gwlad
heb ryfel, dig na chas,
a phlyged holl arweinwyr byd
i'w dderbyn ef a'i ras,
i'w dderbyn ef a'i ras,
i'w dderbyn, i'w dderbyn ef a'i ras.

Ein nerth a'n gobaith oll bob awr
yw ei Efengyl ef:
daeth Crist i'n plith, O llawenhawn,
Hosanna iddo ef,
Hosanna iddo ef,
Hosanna, Hosanna iddo ef!

J. R. JONES, Aberystwyth



445

Engyl Bethlem, seiniwch eto
glod i Dduw am ddod mewn cnawd
i gyfuno dyn â'i Grëwr
a chymodi dyn â'i frawd;
pan ormesir plant diniwed,
pan wrthodir gweinio cledd,
canwch uwch pob maes anghydfod
mai trwy garu dyn daw hedd.

Seren Bethlem, dangos inni'r
ffordd yn ôl i deyrnas Crist,
ffordd cyfiawnder a thrugaredd
at y gwael, y llesg a'r trist;
rho dy wawl i'r rhai sy'n rhygnu
byw, heb lety ar eu taith,
treiddia'n ddyfnach i'n calonnau
nes y try ein gweddi'n waith.

Faban Bethlem, maddau inni
am roi mawl i ti'n y crud
heb dy arddel yn Waredwr,
heb dy ddilyn yn y byd;
o holl roddion Duw i ddynion
ti, O Grist, yw'r pennaf gaed;
tyrd o'r newydd i'n calonnau,
tyrd i ddangos gwerth dy waed.

ALICE EVANS

